

WYNNE, JOHN (1667-1743), esgob Llanelwy a phennaeth Coleg Iesu, Rhydychen

Enw: John Wynne
Dyddiad geni: 1667
Dyddiad marw: 1743
Priod: Anne Wynne (née Pugh)
Plentyn: Margaret Bankes
Plentyn: William Wynne
Plentyn: John Wynne
Rhiant: Elizabeth Wynne (née Wynne)
Rhiant: Humphrey Wynne
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: esgob Llanelwy a phennaeth Coleg Iesu, Rhydychen
Maes gweithgaredd: Crefydd; Addysg
Awdur: Robert Thomas Jenkins

Ganwyd yn 1667 yn fab i Humphrey Wynne, Maes-y-coed, Caerwys, a'i wraig Elizabeth (Wynne, merch John Wynne o Gopa'rleni, Trelawnyd, a'i wraig Catherine Thelwall, Bathafarn, gweler **J. E. Griffith**, *Pedigrees*, 369 - yr oedd yr esgob felly'n gyfylder i'r **John Wynne o Gopa'rleni** y sonnir amdano yn yr ysgrif o flaen hon). Aeth i ysgolion Llaneurgain a Rhuthyn, ac yn 1682 i Goleg Iesu; graddiodd yn 1685 (B.D. 1696, D.D. 1706), ac etholwyd ef yn gymrawd yn yr un flwyddyn. Cymysgir cryn dipyn ar ei yrfa yn Foster a'r *D.N.B.* (y mae ei enw'n hynod gyffredin), ac o graffu ar restrau **D. R. Thomas** o glerigwyr Llanelwy gwelir nad hwn oedd y John Wynne a fu yn Nantglyn a Llanilin fel y dywed Foster, na'r John Wynne (arall eto) a fu yn Efenechtyd yn ôl Foster. Yn wir, y mae gyrfar esgob yn gymharol syml: yr oedd yn gaplan i'r **iarll Pembroke**, a rhoes hwnnw iddo reithoraeth Llangelynnin ym Meirionnydd (1701-14); cafodd hefyd brebend (1705) yng Ngholeg Crist yn Aberhonddu. O 1705 hyd 1716 yr oedd yn athro diwinyddiaeth ('Lady Margaret Professor') ym Mhrifysgol Rhydychen, a chafodd reithoraeth Llandysul (Ceredigion) yn 1713. Eisoes (1712) yr oedd yn is-brifathro Coleg Iesu, ac yn Awst 1712 (ar ôl tynfa galed rhwng y Chwigiadaid a'r Toriaid ymysg y cymrodwr) llwyddodd i gael ei ddewis yn bennaeth. Yn Ionawr 1715 penodwyd ef yn esgob Llanelwy, ond daliodd at ei swydd yng Ngholeg Iesu, ar waethaf cryn rwngach yn Rhydychen, hyd 1720, pan briododd ag Anne, ferch Robert Pugh o'r Benarth ym Mhenmachno (gweler dan **Lloyd, Richard**, o **Esclus** - yr oedd yr esgob yn un o sgutorion **Lloyd**). Yn Llanelwy, gwariodd ei arian yn hael ar atgyweirio'r eglwys a'r plasty; noder hefyd mai Wynne oedd yr esgob Cymreig diwethaf a fu yn Llanelwy, hyd 1870. Symudwyd ef yn 1727 i esgobaeth Bath a Wells, a ddaliodd weddill ei ddyddiau. Yn 1732 prynodd stad Sychdyn ('Soughton') yn Llaneurgain, ac yno y bu farw, 15 Gorffennaf 1743, 'yn 85 oed' meddai carreg ei fedd yn Llaneurgain. Cyhoeddodd rai pregethau, a thalfyriad (1696) o draethawd Locke On the Human Understanding - talfyriad a gymeradwywyd gan Locke ei hunan, a aeth i bum arg., ac a gyfieithwyd yn Ffrangeg ac Eidaleg. Teimlai **Edward Lhuyd** yn 1704 (*Archæologia Cambrensis*, 1859, 253) fod Wynne ' yn oerllyd, yn wir yn eplyniaethus ' tuag ato - ar y llaw arall, cafodd **Moses Williams** lythyr cymeradwyaeth ganddo at Isaac Newton yn 1722 pan geisiai ef gael ei ddewis yn ysgrifennydd i'r Royal Society.

Claddwyd dau fab yr esgob yn Llaneurgain. Yr hynaf oedd JOHN WYNNE (1724 - 1801), cyfreithiwr, ' Bencher ' yn y Middle Temple. Y llall oedd Syr WILLIAM WYNNE (1729 - 1815), yntau'n gyfreithiwr; aeth i Goleg Trinity Hall yng Nghaergrawnt yn 1746, graddiodd yn y gyfraith yn 1751 (LL.D. 1757); bu'n gymrawd o'i goleg o 1755 hyd 1803, ac yn bennaeth ('Master') o 1803 hyd ei farw. Arbenigai yn y gyfraith eglwysig, a bu'n ddadleuwydd o flaen y ' Court of Arches ' o 1757 hyd 1788, pan benodwyd ef yn ' Dean of Arches ' ac yn farmwr yn 'Prerogative Court' yr archesgob, swyddau a ddaliodd hyd 1809. Dewiswyd ef yn aelod o'r Cyfrin Gyngor yn 1789, ac yn un o ' arglwyddi'r Trysorlys ' yn 1790 - yr oedd wedi ei urddo'n farchog yn 1788. Etifeddwyd Sychdyn gan ferch i'r esgob, a briododd â Henry Bankes, hynaif y diweddar **Syr John Eldon Bankes**.

Awdur

Yr Athro Emeritus Robert Thomas Jenkins, (1881 - 1969)

Ffynonellau

Oxford Dictionary of National Biography

Foster, *Alumni Oxonienses: the members of the University of Oxford*

Hardy, *Jesus College* (1899), 163-7

H. B. Thomas, *A History of the Diocese of St. Asaph* (1874), ii, 432

A. Ivor Pryce, *Diocese of Bangor During Three Centuries, seventeenth to nineteenth century inclusive being a digest of the registers of the bishops*(1929), 15

Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: **John Wynne**

Dolenni Ychwanegol

VIAF: 49299496

Wikidata: Q16849924

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>



Jenkins, R. T., (1953). WYNNE, JOHN (1667-1743), esgob Llanely a phennaeth Coleg Iesu, Rhydychen. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 10 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c-WYNN-JOH-1667>

Y Bywgraffiadur

Preifatrwydd a Chwcis
Hawffraint
Y Prosiect
Cymorth
Cysylltu

LGC
NLW

LLYFRGEL
THE NATION



Yn ddiwedd
Llywodraeth Cymru
Supported by
Welsh Government